The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Rheoliadau Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cywiro, Tir Comin Heb ei Gofrestru neu Dir Comin a Gam-gofrestrwyd) (Cymru) 2017

## Canllaw Gweithdrefnol





2019

## Cynnwys

**Adrannau** | **Tudalen**


| Adrannau | Tudalen |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 1 |
| 2. Derbyn Cais neu Gynnig | 2 |
| 3. Costau Gweinyddol a Chostau Arolygwyr | 3 |
| 4. Penderfynu ar y Weithdrefn | 3 |
| 5. Hysbysu ynglŷn â'r trefniadau a Hysbysebu'r trefniadau ar gyfer gwrandawiad neu Ymchwiliad | 6 |
| 6. Y Penderfyniad | 7 |
| 7. Cwynion ac Adolygiad Barnwrol | 7 |

# 1. Cyflwyniad

## Rôl Arolygiaeth Gynllunio Cymru

1.1 Mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru (yr Arolygiaeth) yn Asiantaeth i Lywodraeth Cymru a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Ein prif waith yw prosesu apeliadau cynllunio a gorfodi a chynnal ymchwiliadau i gynlluniau datblygu lleol. Hefyd, rydym yn ymdrin ag amrywiaeth eang o waith achos apeliadau eraill gan gynnwys apeliadau Amgylcheddol, Gorchmynion Hawliau Tramwy a cheisiadau Tir Comin a wneir o dan adrannau 16 a 38 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006. Rydym yn ymdrin ag apeliadau yng Nghymru o'n swyddfa yng Nghaerdydd ac apeliadau yn Lloegr o'n swyddfa ym Mryste.

1.2 Penodwyd Arolygiaeth Gynllunio Cymru gan Weinidogion Cymru i ymchwilio i a phenderfynu ar geisiadau a chynigion penodol yn unol â Deddf Tiroedd Comin 2006 "Deddf 2006". Yn gyffredinol, mae gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru yr un pwerau ag Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin o ran penderfynu ar gais neu gynnig. Er enghraifft, gall Arolygiaeth Gynllunio Cymru gyfarwyddo'r ymgeisydd i ddarparu rhagor o wybodaeth neu dystiolaeth a'r terfyn amser ar gyfer gwneud hynny, a gall ymdrin â'r cais neu'r cynnig fel un y rhoddwyd y gorau iddo os nad yw'r ymgeisydd yn cydymffurfio â'r Rheoliadau.

## Penderfynu p'un ai i gyfeirio cais neu gynnig

1.3 Dylai'r ceisiadau neu'r cynigion canlynol[1] gael eu cyfeirio atom ni:

- Pan fo gan yr Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin fuddiant yng nghanlyniad y cais neu'r cynnig i'r graddau ei bod yn annhebygol y byddai hyder ei fod yn ddiduedd; neu
- Pan fo'r Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin wedi derbyn gwrthwynebiadau i'r cais neu'r cynnig gan y rheiny sydd â buddiant cyfreithiol yn y tir; ac

  (a) y gwneir y cais neu'r cynnig o dan Adran 19(4) Deddf 2006, a'i fod yn ceisio:
  (i) Ychwanegu tir at y gofrestr neu dynnu tir oddi ar y gofrestr; neu
  (ii) Gywiro gwall o ran nifer yr hawliau comin yn y gofrestr; neu

  (b) y gwneir y cais neu'r cynnig o dan Atodlen 2 (paragraffau 2 i 9) i Ddeddf 2006.

1.4 Bydd ceisiadau neu gynigion mewn perthynas â'r categorïau uchod yn cael eu cynnal yn unol â Rheoliadau Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cywiro, Tir Comin Heb ei Gofrestru neu Dir Comin a Gam-gofrestrwyd) (Cymru) 2017 "Rheoliadau 2017". Mae Rheoliad 15(3) o Reoliadau 2017 yn datgan bod

[1] Mae "Cais" yn golygu cais a gyflwynwyd i'r Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin i ddiwygio'i gofrestr. Mae "Cynnig" yn golygu cynnig gan yr Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin i ddiwygio'r gofrestr ar ei fenter ei hun.

rhaid cyfeirio ceisiadau neu gynigion at y person penodedig, Arolygiaeth Gynllunio Cymru.

### Rôl yr Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin cyn cyfeirio

1.5 Mewn unrhyw achos sydd i'w gyfeirio at Arolygiaeth Gynllunio Cymru, mae'n rhaid i'r Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin brosesu'r cais neu'r cynnig yn y ffordd benodedig yn gyntaf (gan gynnwys cyhoeddi hysbysiad o'r cais/cynnig), a gwahodd sylwadau / gwrthwynebiadau i'w hanfon at yr Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin o fewn y cyfnod amser penodedig. Nodir y gofynion hyn yn Rheoliadau 2017 a Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ceiswyr; gellir mynd at gopi o'r rhain drwy'r ddolen ganlynol:

http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/common/commonsact2006/section-19-and-schedule-2/?lang=en

1.6 Ar ôl y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau/gwrthwynebiadau, ac ar ôl gofyn am farnau'r ymgeisydd ar y sylwadau/gwrthwynebiadau, dylai'r Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin gyfeirio'r achos at Arolygiaeth Gynllunio Cymru, lle mae'n bodloni unrhyw rai o'r meini prawf a restrwyd ym mharagraff 1.3 uchod. Wrth gyfeirio'r cais neu'r cynnig, mae'n rhaid i'r Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin amgáu'r holl ddeunydd sydd yn ei feddiant sy'n berthnasol i wneud penderfyniad ar y cais neu'r cynnig. Mae hyn yn cynnwys y cais neu'r cynnig, dogfennau ategol, dogfennau perthnasol eraill sydd ym meddiant yr Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin, gan gynnwys detholiadau o'r cofrestri perthnasol, ac unrhyw sylwadau a dderbyniwyd. Pan fydd yr Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin yn gwneud sylw, dylai ei gynnwys gyda'r dogfennau eraill.

1.7 Byddwn yn gofyn i'r Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin gwblhau 'llythyr cyfeirio' i gadarnhau manylion, gan gynnwys y rheswm dros gyfeirio. Os credwn nad yw'r meini prawf ar gyfer cyfeirio yn berthnasol, byddwn yn dychwelyd y cais neu'r cynnig i'r Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin wneud penderfyniad arno. Bydd disgwyl i'r Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin ddarparu rheswm clir o ran ei fuddiant yn y mater a pham ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw hyder yn ei allu i wneud penderfyniad diduedd ar y cais neu'r cynnig. Y cyfeiriad ar gyfer ceisiadau neu gynigion a gyfeirir yw:

Ansawdd a Gwaith Achos Arbenigol
Arolygiaeth Gynllunio Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 0303 444 5940
E-bost: wales@planninginspectorate.gov.uk

## 2. Derbyn Cais neu Gynnig

2.1 Pan fydd cais neu gynnig wedi'i dderbyn gan Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin, byddwn yn gwirio bod y cais neu'r cynnig wedi'i gyfeirio'n briodol atom ni. Os yw'r cais neu'r cynnig yn anghyflawn neu os na ddylid fod wedi'i gyfeirio atom, byddwn yn dychwelyd y cais neu'r cynnig i'r Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin.

2.2 Os yw'r cais neu'r cyfeiriad yn ddilys, byddwn yn cofrestru'r achos ac yn rhoi cyfeirnod unigryw iddo. Yna byddwn yn ysgrifennu at yr Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin, yr ymgeisydd ac unrhyw un a wnaeth wrthwynebiad/sylw, gan eu hysbysu am fanylion yr achos. Byddwn hefyd yn awgrymu'r weithdrefn fwyaf addas ar gyfer ymdrin â'r cais neu'r cynnig, gan ganiatáu'r hawl i bob parti gael ei glywed. Gweler adran 4 o'r canllaw hwn "Penderfynu ar y Weithdrefn" i gael rhagor o wybodaeth am y dewis o weithdrefn.

## 3. Costau Gweinyddol a Chostau Arolygwyr

3.1 Mewn achosion sy'n cael eu cyfeirio at Arolygiaeth Gynllunio Cymru i benderfynu arnynt, mae'n rhaid i'r ymgeisydd dalu'r costau gweinyddol a chostau'r Arolygydd am brosesu'r cais/cynnig.

3.2 Cyn dechrau ar gais/cynnig, bydd Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn darparu amcangyfrif o'r cyfanswm costau i geiswyr. Codir y costau hyn yn unol â'n cyfraddau dyddiol cyhoeddedig.

3.3 Bydd Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn gofyn am daliad cychwynnol ar gyfer cofrestru'r cais/cynnig, ac ni chymerir unrhyw gamau pellach hyd nes y derbynnir y taliad cychwynnol. Rhoddir 28 diwrnod i'r ymgeisydd wneud y taliad llawn.

3.4 Pan fydd Arolygiaeth Gynllunio Cymru wedi cwblhau'r holl waith ar y cais/cynnig, anfonir anfoneb at yr ymgeisydd am weddill y costau yr aethpwyd iddynt. Mae'r taliad hwn yn cynnwys gwaith paratoadol yr Arolygydd, yr ymweliad â'r safle (os oes angen un) ac amser llunio'r adroddiad ar y cais/cynnig yn ogystal ag unrhyw gostau gweinyddol ychwanegol. Rhoddir 28 diwrnod i'r ymgeisydd wneud y taliad llawn.

3.5 **NI fydd Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn cyhoeddi penderfyniad yr Arolygydd hyd nes y derbynnir y taliad terfynol.**

3.6 Rydym yn annog talu costau trwy drosglwyddiad electronig yn hytrach na thrwy daliad siec unigol, lle bo modd. Dylid talu costau'r cais/cynnig i gyfrif banc Arolygiaeth Gynllunio Cymru. Byddwn yn eich hysbysu am y swm, ac amseriad pob taliad.

3.7 Pe bai'r cais/cynnig yn cael ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd dalu am unrhyw amser a dreuliodd Arolygydd yn gweithio arno.

3.8 Mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn cadw'r hawl i atal prosesu cais/cynnig yn sgil costau heb eu talu neu daliadau hwyr.

3.9 Mae ceisiadau a wneir o dan adran 19(2)(a) a (c) wedi'u heithrio rhag talu ffi gan fod y rhain yn ymwneud â gwallau a wnaed gan yr Awdurdod

Cofrestru Tiroedd Comin. Yn yr un modd, mae ceisiadau/cynigion o dan Atodlen 2 paragraffau 2-5 wedi'u heithrio rhag talu ffi gan y'u gwneir er budd y cyhoedd.

## 4. Penderfynu ar y Weithdrefn

4.1 Bydd Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn nodi wrth y partïon (Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin, yr ymgeisydd, gwrthwynebwyr ac unrhyw barti arall a wnaeth sylw) p'un a yw'n ymddangos bod gwrandawiad neu ymchwiliad yn angenrheidiol, neu ai cyfnewid tystiolaeth ysgrifenedig fyddai'r ffordd fwyaf effeithlon o benderfynu'r achos.

4.2 Mae gan yr ymgeisydd a phawb sydd wedi gwneud gwrthwynebiad/sylw hawl i gael ei glywed gan arolygydd. Os yw rhywun yn gofyn am gael ei glywed, byddwn yn penderfynu p'un ai gwrandawiad neu ymchwiliad fyddai'r weithdrefn fwyaf addas.

### Sylwadau Ysgrifenedig

4.3 Penderfynir ar rai ceisiadau neu gynigion ar ôl ystyried tystiolaeth ysgrifenedig ac archwiliad safle gan yr arolygydd penodedig. Gallai fod yn fwyaf addas lle bo'r materion yn gymharol syml a dim ond ychydig o wrthwynebwyr a geir.

4.4 Bydd yr Arolygydd penodedig yn ystyried cynnwys y cais neu'r cynnig ac unrhyw ddeunydd ategol fel y'i cyflwynwyd gan yr Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin. Os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol, efallai y gwahoddwn sylwadau ysgrifenedig pellach ynglŷn â mater penodol gan yr ymgeisydd, yr Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin, unrhyw unigolyn sydd wedi gwneud gwrthwynebiad/sylw ac unrhyw unigolyn arall. Byddwn yn pennu'r cyfnod amser ar gyfer gorfod cyflwyno rhagor o wybodaeth. Ni chaiff tystiolaeth hwyr ei derbyn, a bydd yn cael ei dychwelyd i'r anfonwr.

### Ymweliad â'r Safle

4.5 Fel arfer cynhelir archwiliad o safle'r cais neu'r cynnig cyn i benderfyniad gael ei wneud.

4.6 Cyn gwneud y trefniadau i ymweld â'r safle, byddwn yn gofyn i'r ymgeisydd/Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin p'un a ydynt yn dymuno mynychu'r ymweliad â'r safle. Os ydynt, yna byddwn yn trefnu dyddiad ac amser ar gyfer yr ymweliad â'r safle. Gelwir hyn yn archwiliad safle gyda chwmni. Pe bai angen archwiliad safle gyda chwmni, yna byddwn hefyd yn hysbysu unrhyw unigolyn a wnaeth wrthwynebiad/sylw am drefniadau'r ymweliad â'r safle. Os nad yw'r ymgeisydd/Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin yn dymuno mynychu, yna bydd yr arolygydd yn cynnal ymweliad â'r safle heb gwmni.

4.7 Gan fod rhaid i bawb dan sylw gyflwyno'u hachos yn ysgrifenedig, ni chaniateir unrhyw drafodaeth ar rinweddau'r cais neu'r cynnig yn ystod yr archwiliad o'r safle.

4.8 Ar ôl yr ymweliad â'r safle, mae'r arolygydd yn ystyried y cais neu'r cynnig a'r holl dystiolaeth ysgrifenedig, yna mae'n cymhwyso'r meini prawf perthnasol er mwyn gwneud penderfyniad.

## Gwrandawiadau ac Ymchwiliadau

4.9 Trafodaeth dan arweiniad arolygydd yw gwrandawiad. Mae gwrandawiadau'n llai ffurfiol, yn symlach ac yn gyflymach nag ymchwiliadau fel arfer. Ni chynhelir unrhyw groesholi ffurfiol fel arfer ac ni ddylai bara mwy na diwrnod. Maent yn gweithio orau dim ond lle mae ychydig o bobl am gael eu clywed, lle bo'r materion i'w hystyried yn gymharol syml, a lle nad oes fawr o ddadlau ynghylch y dystiolaeth. Fel arfer, nid yw gwrandawiadau'n addas ar gyfer achosion sy'n cynnwys materion cymhleth sy'n mynnu bod tystiolaeth i'w phrofi drwy groesholi.

4.10 Mae ymchwiliadau cyhoeddus yn ffurfiol lle y caiff tystiolaeth ei chlywed a lle bo tystion yn agored i gael eu croesholi. Ymchwiliadau yw'r dewis gorau pan fo llawer o dystiolaeth, neu pan fo tystiolaeth sy'n gwrthdaro, neu pan fo nifer o wrthwynebwyr.

4.11 Os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwahodd sylwadau ysgrifenedig am fater penodol gan yr ymgeisydd, yr Awdurdod Cofrestru Tir Comin, unrhyw unigolyn a wnaeth wrthwynebiad/sylw ac unrhyw unigolyn arall, cyn y gwrandawiad neu'r ymchwiliad. Byddwn yn pennu'r amser ar gyfer gorfod cyflwyno rhagor o wybodaeth. Ni fydd tystiolaeth hwyr yn cael ei derbyn a bydd yn cael ei dychwelyd i'r anfonwr.

4.12 Caiff gwrandawiad neu ymchwiliad ei gynnal ar ein disgresiwn. Gwneir y penderfyniad i gynnal gwrandawiad neu ymchwiliad ar sail achos wrth achos, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau unigol. Efallai y penderfynwn benodi arolygydd i gynnal gwrandawiad neu ymchwiliad:

- pan fydd ystod eang o seiliau gwrthwynebu wedi'u derbyn mewn ymateb i'r cais neu'r cynnig;
- pan fydd materion yr achos yn arbennig o gymhleth; neu
- pan fydd yn ymddangos mai ymchwiliad yw'r unig ffordd i gael y wybodaeth angenrheidiol er mwyn llunio casgliad ystyriol ar y cais neu'r cynnig.

4.13 Bydd gwrandawiad neu ymchwiliad yn rhoi cyfle i'r ymgeisydd gyflwyno'i achos i arolygydd, a hefyd mae'n galluogi pobl yr effeithir arnynt gan y cynnig i gyfleu'u safbwyntiau.

4.14 Ar ôl y gwrandawiad neu ymchwiliad, bydd yr Arolygydd, gyda'r partïon yn bresennol, yn gwneud archwiliad o safle'r cais neu'r cynnig.

4.15 Yn dilyn y gwrandawiad neu ymchwiliad, mae'r Arolygydd yn ystyried y cais neu'r cynnig a'r holl dystiolaeth ysgrifenedig a llafar cyn gwneud penderfyniad.

## Cyfarfodydd Cyn-Ymchwiliad

4.16 Os oes nifer fawr o bobl eisiau mynychu'r ymchwiliad neu os yw'r achos yn arbennig o gymhleth, efallai y trefnwn gyfarfod cyn yr ymchwiliad (cyfarfod

cyn-ymchwiliad). Byddwn yn dweud wrth y partïon os penderfynwn wneud hyn, gan roi hysbysiad o 14 diwrnod calendr o leiaf, a byddwn yn esbonio'r hyn y bydd y cyfarfod yn ei gwmpasu. Cynhelir cyfarfod cyn-ymchwiliad gan yr arolygydd penodedig a bydd ond yn ymdrin â materion megis y drefn y bydd yr ymgeisydd a phobl eraill yn cyflwyno'u tystiolaeth. Ni fydd y cyfarfod yn ymdrin â manylion y sylwadau na'r cais neu'r cynnig.

4.17 Os yw'r arolygydd yn gofyn am unrhyw wybodaeth ychwanegol gan y partïon yn y cyfarfod cyn-ymchwiliad, rhaid cyflwyno'r wybodaeth hon i ni o fewn y cyfnod amser a bennwyd gan yr arolygydd. Mae'n fuddiol i'r arolygydd wybod ar hyn o bryd pwy sy'n debygol o ymddangos yn yr ymchwiliad, ond os na chaiff enw ei roi gerbron yn y cyfarfod cyn-ymchwiliad, bydd yr unigolyn yn gallu siarad yn yr ymchwiliad o hyd, ar ddisgresiwn yr arolygydd.

4.18 Ar ôl y cyfarfod, anfonir copi o nodiadau'r arolygydd o'r cyfarfod cyn-ymchwiliad at bawb a oedd yn bresennol.

### Costau

4.19 Fel arfer disgwylir i bartïon i gais neu gynnig dalu eu costau eu hunain. Fodd bynnag, mewn gwrandawiad neu ymchwiliad, gall fod rhaid i un parti dalu costau parti arall. Caiff yr arolygydd penodedig ddyfarnu costau pan fo un o'r partïon wedi ymddwyn yn afresymol a bod hynny wedi achosi i barti arall fynd i dreuliau diangen o ganlyniad i hynny. Gellir cael rhagor o wybodaeth ar-lein:
http://gov.wales/topics/planning/appeals/costs/?lang=en

## 5 Hysbysu ynglŷn â'r trefniadau a hysbysebu'r trefniadau ar gyfer gwrandawiad neu ymchwiliad

5.1 Os yw Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn penderfynu cynnal gwrandawiad neu ymchwiliad, byddwn yn hysbysu'r ymgeisydd, yr Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin, gwrthwynebwyr ac unrhyw bartïon eraill. Byddwn yn pennu dyddiad ar gyfer y gwrandawiad neu ymchwiliad ac yn penodi arolygydd.

5.2 Mae'n rhaid i ni sicrhau bod hysbysiad o'r gwrandawiad neu'r ymchwiliad yn cael ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru, a'i fod yn cael ei gyflwyno i'r ymgeisydd, yr Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin, unrhyw un sydd wedi gwneud gwrthwynebiad neu sylw ac unrhyw unigolyn arall.

5.3 Byddwn yn pennu dyddiad i'r gwrandawiad neu'r ymchwiliad mor gynnar ag y bo modd ac yn cysylltu â'r ymgeisydd/ Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin ynglŷn â'r trefniadau manwl, a pha gamau y mae angen iddynt eu cymryd. Wedyn byddwn yn anfon cadarnhad ysgrifenedig. Mewn unrhyw achos, lle mae'r Arolygiaeth yn penderfynu cynnal gwrandawiad neu ymchwiliad, dylai'r Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin ddarparu lleoliad a chymorth gweinyddol lle bynnag y bo modd.

5.4 Fel arfer byddai gwrandawiadau ac ymchwiliadau yn rhedeg rhwng 9:00 am a 5:00 pm. Bydd angen i'r dewis o leoliad fod yn gyson â gofynion nodyn cyfleusterau lleoliad yr Ymchwiliad. Gellir gweld nodyn cyfleusterau'r lleoliad yma:

http://gov.wales/topics/planning/appeals/conduct-of-inquiries/?lang=en

5.5 Yn unol â Rheoliad 17(1)(c) o Reoliadau 2017, gall Arolygiaeth Gynllunio Cymru, fel yr awdurdod penderfynu, fynnu bod yr ymgeisydd/Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin yn cyhoeddi hysbysiad o'r gwrandawiad neu ymchwiliad mewn rhyw ffordd arall, fel postio hysbysiad o'r gwrandawiad neu ymchwiliad ar wrthrych neu wrthrychau ar y safle neu gerllaw'r safle.

### Yr Iaith Gymraeg

5.6 Amcanwn i ddarparu gwasanaeth o'r un safon uchel i'n cwsmeriaid yn Gymraeg ac yn Saesneg.

5.7 Cydnabyddwn y gall ein cwsmeriaid fynegi eu barn yn well yn eu dewis iaith gyfathrebu. Yn unol â hynny, rydym yn eu croesawu pob cyfathrebiad â ni yn Gymraeg neu Saesneg.

5.8 Mae croeso i aelodau'r cyhoedd siarad yn Gymraeg mewn gwrandawiadau ac ymchwiliadau. Gofynnir i'r rheiny sy'n dymuno darparu tystiolaeth trwy gyfrwng y Gymraeg hysbysu'r Arolygiaeth Gynllunio cyn unrhyw wrandawiad neu ymchwiliad, er mwyn gallu darparu cyfleusterau cyfieithu priodol.

### Pobl ag anableddau

5.9 Rydym yn awyddus i gynnal pob gwrandawiad ac ymchwiliad mewn adeiladau lle ceir cyfleusterau priodol i bobl ag anableddau. Os ydych chi, neu unrhyw un rydych yn ei adnabod, am fynd i wrandawiad neu ymchwiliad a bod gennych anghenion penodol, cysylltwch ag Arolygiaeth Gynllunio Cymru er mwyn gallu gwneud trefniadau priodol.

## 6 Y Penderfyniad

6.1 Wrth wneud ei benderfyniad, bydd yr arolygydd penodedig yn ystyried cynnwys y cais neu'r cynnig ac unrhyw ddeunydd cysylltiedig fel y'i cyflwynwyd gan yr Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin. Hefyd, bydd yr arolygydd yn ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig pellach y gofynnodd Arolygiaeth Gynllunio Cymru amdanynt, a'r dystiolaeth a gyflwynwyd mewn gwrandawiad neu ymchwiliad.

6.2 Pan fydd Arolygiaeth Gynllunio Cymru wedi gwneud penderfyniad ar yr achos a gyfeiriwyd, byddwn yn hysbysu'r Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin am benderfyniad yr Arolygydd, ac yn anfon manylion yr holl unigolion a wnaeth sylwadau at yr Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin. Mae'n rhaid i'r Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin hysbysu'r ymgeisydd ac unrhyw un a wnaeth sylwadau am y penderfyniad, a'i gyhoeddi gyda'r rhesymau am y penderfyniad, ar ei wefan. Bydd Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn cyhoeddi copi o'r penderfyniad hefyd ar www.llyw.cymru.

6.3 Pan fo'r Arolygydd yn penderfynu dyfarnu achos wedi'i gyfeirio, mae'n rhaid i'r Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin wneud y diwygiad priodol i'r gofrestr,

yn unol â'r cais neu'r cynnig a'r penderfyniad, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl derbyn y penderfyniad.

6.4 Bydd Arolygiaeth Gynllunio Cymru yn cyhoeddi penderfyniad yr Arolygydd ar y cyfle cynharaf ar ôl derbyn y taliad terfynol gan yr ymgeisydd.

# 7 Cwynion ac Adolygiad Barnwrol

## Gwneud cwyn i ni

7.1 Os oes gennych gŵyn ynglŷn â'r ffordd yr ymdrinnir, neu yr ymdriniwyd â'r cais neu'r cynnig, naill ai gan yr arolygydd neu ein swyddog achos, dylech gysylltu â'r swyddog cwynion yn:

Y Swyddog Cwynion
Arolygiaeth Gynllunio Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 0303 444 5940
E-bost: wales@planninginspectorate.gov.uk

7.2 Ymchwilir yn ddiduedd i'ch cwyn ac fel arfer gallwch ddisgwyl ateb cyn pen tair wythnos. Os oes camgymeriad wedi'i wneud, byddwn yn esbonio hyn ac yn ymddiheuro, ond nid yw'r gyfraith yn caniatáu i ni newid y penderfyniad mewn unrhyw ffordd.

7.3 Gallwch gael mwy o wybodaeth am ein gweithdrefnau cwynion ar ein gwefan yn: http://gov.wales/topics/planning/appeals/feedback-and-complaints/?lang=en

## Adolygiad Barnwrol

7.4 Pan fydd penderfyniad ar gais neu gynnig wedi'i gyhoeddi, nid oes grym gennym i'w ddiwygio neu'i newid. Adolygiad barnwrol llwyddiannus yw'r unig ffordd o allu adolygu penderfyniad.

7.5 Mae'n rhaid i chi wneud cais i'r Uchel Lys am adolygiad barnwrol yn brydlon a beth bynnag ddim hwyrach na 3 mis o ddyddiad y penderfyniad. I fod yn llwyddiannus, byddai'n rhaid i chi ddangos:

- Bod y sawl a wnaeth y penderfyniad wedi mynd y tu hwnt i'w bwerau/phwerau; neu
- Nad yw'r meini prawf sy'n berthnasol i'r math o gais neu gynnig wedi'u bodloni, a bod hyn wedi niweidio'ch buddiannau.

7.6 Dylech wneud cais i:

Y Llys Gweinyddol
Canolfan Cyfiawnder Sifil Caerdydd
2 Stryd y Parc

Caerdydd
CF10 1ET

Ffôn: 029 2037 6400
Gwefan: www.courtservice.gov.uk

7.7 Os ydych yn dymuno dilyn y llwybr gweithredu hwn, gallef fod eisiau ystyried gofyn am gyngor gan gyfreithiwr neu'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth.

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

7.8 Os ydych o'r farn y cawsoch eich trin yn annheg am nad ydym ni neu'r arolygydd wedi gwneud ein gwaith yn briodol, gallwch gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Nid oes gan yr Ombwdsmon unrhyw rym i gwestiynu rhinweddau cais neu gynnig nac i newid y penderfyniad. Dim ond â'r ffordd yr ymdriniwn â cheisiadau neu gynigion, a'r ffordd y cânt eu prosesu gennym, y mae a wnelo â nhw. Fel arfer ni fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio oni bai eich bod wedi gwneud cwyn i ni yn gyntaf. Gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon yn:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd Yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203
E-bost: holwch@ombwdsmon.cymru
Gwefan: www.ombwdsmon.cymru